# Bil Iaith Arwyddion Prydain (IAP) (Cymru)

# Datganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil hwn

Gorffennaf 2025

**BIL IAITH ARWYDDION PRYDAIN (IAP) (CYMRU)**

**DATGANIAD O FWRIAD Y POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH I'W GWNEUD O DAN Y BIL HWN**

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi syniad o fwriad y polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y mae gan Weinidogion Cymru bŵer i'w gwneud, neu sy'n ofynnol iddynt ei gwneud o dan ddarpariaethau'r Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) ('y Bil'), fel y'i cyflwynwyd ar 14 Gorffennaf 2025.

Fe'i paratowyd i gynorthwyo pwyllgorau'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd yn ystod y broses o graffu ar y Bil, a dylid ei darllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef.

## Trosolwg o'r Bil

Prif nod y Bil yw hybu a hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain (IAP) yng Nghymru.

Mae'r Bil yn gwneud hynny drwy osod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain ("IAP") a llunio a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y byddant yn cyflawni'r ddyletswydd hon, a chyflwyno adroddiad ar gynnydd. Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus rhestredig i baratoi a chyhoeddi cynllun IAP.

I grynhoi, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

- Gweinidogion Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP ac, er mwyn bodloni'r gofyniad hwnnw, lunio strategaeth IAP genedlaethol sy'n disgrifio'r ffordd y maent hwy eu hunain yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP, a'r ffordd y maent yn bwriadu annog cyrff cyhoeddus penodol i wneud hynny;

- Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i'r cyrff cyhoeddus hynny ynghylch hybu a hwyluso'r defnydd o IAP;

- cyrff cyhoeddus penodol a restrir yn y Bil i lunio cynlluniau sy'n disgrifio'r ffordd y maent yn bwriadu hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o IAP.

- Gweinidogion Cymru a'r cyrff cyhoeddus a restrir i gyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wneir wrth hyrwyddo BSL o dan ddarpariaethau'r Bil.

- Gweinidogion Cymru i benodi rhywun yn gynghorydd IAP, a phenodi panel o bobl i gynorthwyo'r cynghorydd.

**Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil**

Mae'r Bil yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau yn yr adrannau a ganlyn:

- Adran 4(1)(c)
- Adran 8(2)

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Datganiad hwn ar y pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil yn cyfateb i'r wybodaeth a ddarperir ym Mhennod 6 o'r Memorandwm Esboniadol (Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth).

Mae adran 9 o'r Bil (Rheoliadau) yn nodi bod rheoliadau o dan adran 4(1)(c) yn ddarostyngedig i weithdrefn ddiddymu (negyddol) y Senedd; ac mae Rheoliadau o dan adran 8(2) yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo (cadarnhaol) y Senedd.

Mae Adran 10 o'r Bil (Dod i rym) yn nodi y bydd y Ddeddf yn ei chyfanrwydd yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol.

**Adran 4(1)(c): Rheoliadau i ragnodi 'gwybodaeth arall' o'r fath sy'n ofynnol mewn cynlluniau IAP**

Mae'r ddarpariaeth hon yn gosod dyletswydd ar gorff cyhoeddus rhestredig i baratoi a chyhoeddi cynllun—

> (a) sy'n disgrifio sut y mae'n bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer ei swyddogaethau;
>
> (b) sy'n disgrifio sut y mae'n bwriadu dilyn canllawiau a gyhoeddir o dan adran 3, neu'n esbonio pam nad yw'n bwriadu gwneud hynny;

Byddai'n rhesymol disgwyl y gallai fod angen i fanylion a chynnwys cynlluniau IAP newid dros amser i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid. Felly, mae adran 4(1)(c) o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ragnodi gwybodaeth arall y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus rhestredig ei chynnwys yn ei gynllun IAP. Wrth wneud hynny, mae disgresiwn Llywodraeth Cymru dros gynnwys y rheoliadau yn gyfyngedig gan y bydd yn rhaid i unrhyw 'wybodaeth arall' a ragnodir gan y rheoliadau ymwneud â IAP.

Ni all rheoliadau o dan Adran 4(1)(c) newid y gofynion a nodir yn y Bil.

**Adran 8(2) Rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o gyrff cyhoeddus rhestredig**

Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i newid pa gyrff a gynhwysir fel "cyrff cyhoeddus rhestredig" o dan adran 8(1) o'r Bil. Mae'r pŵer i wneud Rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud hyn drwy:

(a) ychwanegu awdurdod Cymreig datganoledig,
(b) dileu corff cyhoeddus rhestredig, neu
(c) diwygio'r disgrifiad o gorff cyhoeddus rhestredig.

Mae'n rhesymol disgwyl y gallai fod angen i'r cyrff cyhoeddus rhestredig hynny newid dros amser i ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Felly, mae'n briodol y dylid gwneud hyn drwy reoliadau. Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori hefyd â'r Cynghorydd IAP a phersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.

Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i'w gwneud gan ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Senedd, felly byddant yn cael eu dwyn i sylw'r Senedd ac yn destun dadl a phleidlais.

At ddibenion adran 8(2)(a), mae i "awdurdod Cymreig datganoledig" yr ystyr a roddir yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).